OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1500 (Cy.145)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009

Gwnaed - - - -	*16 Mehefin 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*18 Mehefin 2009*
Yn dod i rym - -	*15 Gorffennaf 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 94(5A), 95(3A) ac 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freinir bellach ynddynt hwy(**2**), ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol ag Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**3**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi, Cychwyn a Chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2009, ac maent yn dod i rym ar 15 Gorffennaf 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio'r Rheoliadau

2.—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005(**4**) fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau, ym mhob man y mae'n digwydd—

yn lle "awdurdod lleol" gosoder "awdurdod addysg lleol".

(**1**) 1998 p.31. Mewnosodwyd is-adran 5A yn adran 94 gan adran 50 o Ddeddf Addysg 2002 (p.32). Mewnosodwyd is-adran 3A yn adran 95 gan baragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32).

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac wedyn i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**3**) 2007 p.15. Mae paragraff 24(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 yn cyfarwyddo mai ar ôl ymgynghori â'r Cyngor, yn unig, y ceir arfer pŵer Gweinidogion Cymru i wneud, cymeradwyo, cadarnhau neu gydsynio i reolau gweithdrefnol ar gyfer unrhyw dribiwnlys a restrir.

(**4**) O.S. 2005/1398 (Cy.112).